

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r Lleoliad: Aderyn

Dyddiad y gweithgarwch: 16 Tachwedd
2020

Dyddiad cyhoeddi: 14 Rhagfyr 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Aderyn fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y ward ar 16 Tachwedd 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; a'r newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gwnaethom adolygu polisiau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym na fu unrhyw achosion a gadarnhawyd o COVID-19, nac unrhyw glefydau heintus eraill, ymhlith y staff na'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant a oedd yn ymwneud yn benodol â COVID-19 wedi ei ddarparu i bob aelod o'r staff.

Dywedwyd wrthym fod mwy o lanhau yn digwydd a bod defnydd da yn cael ei wneud o PPE, gyda digon o gyflenwadau ar gael.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y gwasanaeth wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau polisiau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni'r gofynion ychwanegol yn deillio o'r pandemig.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod archwiliadau rheoli heintiau wedi'u cwblhau'n rheolaidd.

Cawsom wybod bod y cleifion a'r staff wedi bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd dyddiol. Drwy gyfathrebu'n rheolaidd, sicrhawyd bod pawb yn cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd o ganlyniad i COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys symud rhywfaint o'r dodrefn yn yr ystafell fwyta er mwyn helpu

i gadw pellter cymdeithasol. Mae dwy ystafell wely wedi cael eu paratoi ar y llawr gwaelod lle gallai'r cleifion gael eu gwarchod/ynysu petaent yn cael canlyniad prawf COVID-19 positif. Mae amserlenni glanhau wedi cael eu diwygio fel bod holl ardaloedd y cleifion a'r staff yn cael eu glanhau'n amlach.

Dywedwyd wrthym fod modd i'r cleifion ddefnyddio tir helaeth yr ysbyty er eu hiechyd a'u llesiant. Roedd gweithgareddau ychwanegol hefyd yn cael eu darparu yn ystod y cyfyngiadau symud i gadw'r cleifion yn brysur. Roedd ardal awyr agored ar gael a oedd yn sicrhau bod modd i'r cleifion gael ymwelwyr. Gall y cleifion ddefnyddio eu ffonau symudol neu ddyfais llechen i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol allanol, wedi parhau a bod yr holl adolygiadau a drefnwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 wedi'u cynnal o fewn yr amserlenni rhagnodedig. Lle na fu modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, defnyddiwyd galwadau ffôn a fideo-gynadledda i sicrhau bod y cleifion yn parhau i allu cael gafael ar wasanaethau proffesiynol allanol, gan gynnwys gwasanaethau eirioli.

Dywedwyd wrthym na fu modd i'r cleifion adael y lleoliad yn ôl yr arfer ar ddechrau'r pandemig yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Fodd bynnag, wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, adolygwyd statws y cleifion a'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau. Mae'r staff wedi parhau i gynorthwyo'r holl gleifion i ymweld â'r gymuned yn ddiogel drwy gydol y cyfnod, yn unol ag asesiadau risg a chynlluniau gofal a thriniaeth unigol.

O'r dogfennau a gyflwynwyd, a'n trafodaethau â rheolwr yr ysbyty a rheolwr y ward, gwelsom y byddai unrhyw glaf â chlefyd heintus yn cael ei reoli'n briodol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom y polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys polisiau a chanllawiau penodol ar gyfer COVID-19.

Cawsom hefyd nifer o archwiliadau sy'n cael eu cynnal er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Roedd yr archwiliadau wedi cael eu cwblhau'n fewnol gan y staff yn ogystal ag asiantaeth allanol ym mis Mawrth 2019. Roedd cyfraddau cydymffurfio'r archwiliadau diweddar a gyflwynwyd yn uchel, ond gwnaethom ofyn i reolwr yr ysbyty ddarparu tystiolaeth o'r

cynnydd a wnaed yn erbyn dau argymhelliad yn yr archwiliad hanesyddol a gynhaliwyd gan yr asiantaeth allanol (gweler meysydd i'w gwella isod).

Dywedwyd wrthym fod holl ardaloedd y cleifion a'r staff yn cael eu glanhau'n amlach ym mhob rhan o'r ysbyty. Dywedwyd wrthym fod digon o PPE ar gael i'r staff ac ymwelwyr, ac y cynhelir archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod lefelau digonol ar gael. Dywedwyd wrthym fod nifer o bosteri yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r ysbyty yn annog pobl i olchi eu dwylo'n rheolaidd ac i gadw pellter cymdeithasol.

Dywedwyd wrthym am y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i nodi unrhyw staff neu gleifion a all fod mewn perygl o ddatblygu COVID-19. Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae gan bob claf gynllun gofal ac asesiad risg unigol ar gyfer COVID-19, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

Dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i atal a rheoli heintiau ac yn eu cyflawni. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y data cydymffurfiaeth a gyflwynwyd ar gyfer hyfforddiant atal a rheoli heintiau. Yn ogystal â hyn, darparwyd hyfforddiant gwisgo a diosg PPE a hyfforddiant masgiau FFP3¹ i'r staff.

Roedd y data a gyflwynwyd inni yn dangos nad oedd unrhyw achosion o Clostridiwm Difficile² na Norofeirws³ wedi'u cofnodi.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Roedd yr archwiliad allanol o drefniadau atal a rheoli heintiau a gyflwynwyd, dyddiedig mis Mawrth 2019, yn tynnu sylw at feysydd yr oedd angen cymryd camau yn eu cylch. Dywedwyd wrthym fod y camau wedi cael eu cymryd, ond nid oedd y ddogfen yn dangos hyn. Felly rydym yn argymhell y dylid cofnodi'r camau a gymerwyd a'r dyddiad y cawsant eu cymryd er mwyn dangos tystiolaeth bod yr argymhellion wedi cael eu cwblhau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

¹ Caiff masg FFP3 ei wisgo wrth gynnal gweithdrefnau cynhyrchu aerosol heintus o bosibl

² Bacteria sy'n gallu heintio'r coluddyn gan achosi dolur rhydd yw Clostridiwm Difficile, a elwir hefyd yn C. diff. Fel arfer, mae'r haint yn effeithio ar bobl sydd wedi cael eu trin â gwrthfotigau yn ddiweddar.

³ Salwch yn y stumog sy'n achosi chwydu a dolur rhydd yw norofeirws, a elwir hefyd yn "salwch chwydu'r gaeaf". Gall fod yn annymunol iawn, ond mae fel arfer yn mynd i ffwrdd ar ôl tua deuddydd.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

O'r trafodaethau a gawsom â rheolwr yr ysbyty a rheolwr y ward, daeth yn glir bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau a phrosesau uwchgyfeirio ac adrodd yr ysbyty. Dywedodd rheolwr yr ysbyty wrthym ei fod yn cael cefnogaeth dda gan uwch-dîm rheoli'r sefydliad, a bod ganddo rwydweithiau da â rheolwyr ysbytai eraill.

Dywedwyd wrthym na ddefnyddir unrhyw staff asiantaeth yn yr ysbyty. Mae gan yr ysbyty nifer o staff banc rheolaidd y gelwir arnynt i gyflenwi os bydd prinder staff.

Ar adeg yr alwad, dywedwyd wrthym fod un swydd wag ar gyfer nyrs yn cael ei hysbysebu, a bod lefelau salwch y staff wedi bod yn isel iawn.

Dywedwyd wrthym fod lefelau dibyniaeth y cleifion yn cael eu hasesu'n rheolaidd a bod staff ychwanegol yn cael eu defnyddio os oedd mwy o alw.

Gwelsom dystiolaeth o gyfraddau cydymffurfio uchel ar gyfer hyfforddiant staff gorfodol. Mae hyfforddiant staff yn parhau a chaiff y rhan fwyaf o fodiwlau eu cwblhau drwy'r system e-ddysgu. Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o staff Aderyn yn gallu darparu rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb, er enghraifft hyfforddiant ar wisgo a diosg PPE. Mae hyn yn sicrhau bod modd darparu hyfforddiant yn fewnol heb fod angen i ddarparwyr allanol ddod i'r ysbyty.

Dywedwyd wrthym fod sesiynau goruchwyllo'r staff wedi'u dogfennu yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod y staff yn cael arfarniad blynyddol. Yn ogystal â'r gwasanaethau cymorth staff a sefydlwyd eisoes, mae rhai dulliau ychwanegol wedi cael eu sefydlu i gefnogi'r staff. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau myfyrio dan arweiniad y tîm seicoleg, yn ogystal ag ardal ddynodedig lle gall y staff fynd i gael seibiant neu ardal dawel i weithio heb i neb darfu arnynt.

Dywedwyd wrthym fod adolygiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a chysylltiad â gweithwyr proffesiynol allanol, gan gynnwys cymorth eirioli, wedi parhau drwy alwadau ffôn a fideo-gynadledda. Mae'r gwasanaeth wedi ymateb i lacio'r cyfyngiadau symud a gyflwynwyd yn sgil COVID-19 drwy adolygu asesiadau risg, a chaniatáu mwy o ymweliadau â'r safle, yn unol â'i weithdrefnau ar gyfer ymweliadau.

Dywedwyd wrthym, yn unol ag asesiadau risg a gwaith cynllunio, fod rhai o'r cleifion wedi gallu ymweld â'r gymuned ac aelodau o'r teulu, yn unol â'r canllawiau presennol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Aderyn

Gwasanaeth: Elysium Healthcare

Dyddiad y gweithgarwch: 16 Tachwedd 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau bod y camau a restrir yn yr archwiliad o drefniadau atal a rheoli heintiau (allanol) wedi eu dogfennu er mwyn dangos eu bod wedi'u cwblhau	Rheoliad 15 (1) (c)	Ni chafodd y cynllun gweithredu ar gyfer yr archwiliad allanol ei atodi i'r archwiliad rheoli heintiau fel tystiolaeth. Cwblhawyd y cynllun gweithredu ar adeg yr archwiliad allanol, ond nid oeddwn yn gallu dod o hyd i'r cynllun gweithredu ar adeg y Gwiriad ansawdd haen 1 a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd	Philip Petts	Ar waith

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Philip Petts

Dyddiad: 23/11/2020